# Polisi Preifatrwydd y Wefan (fersiwn GDPR)

1.Gwybodaeth bwysig a phwy ydyn ni

2.Y data rydym yn ei gasglu amdanoch chi

3.Sut caiff eich data personol ei gasglu?

4.Sut rydym yn defnyddio eich data personol

5.Datgelu eich data personol

6.Trosglwyddiadau rhyngwladol

7.Diogelu data

8.Cadw data

9.Eich hawliau cyfreithiol

Mae eich hawl i breifatrwydd yn bwysig iawn i ni ac rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn ymddiried ynom i weithredu mewn ffordd gyfrifol wrth ddewis rhoi eich manylion personol i ni. Bydd y polisi preifatrwydd hwn yn eich hysbysu o ran sut rydym yn gofalu am eich data personol pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan, pan fyddwch yn anfon neges e-bost atom, neu pan fyddwch yn cyflwyno ffurflen ar-lein trwy ein gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap (sut bynnag y byddwch yn ymweld ag ef) ac yn dweud wrthych am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu chi.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Caiff yr holl ddata a gyflwynir gan ymwelwyr â'r wefan hon a'r pyrth ar-lein ei brosesu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (*GDPR*). Caiff yr holl wybodaeth a gesglir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei chadw a'i chynnal mewn cronfeydd data dan berchnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

Gall Cyngor Sir Ynys Môn gasglu rhywfaint o wybodaeth bersonol gan ymwelwyr â'n gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap. Defnyddir y wybodaeth hon i ymateb i ymholiadau ac i fonitro sut y caiff y safle ei ddefnyddio yn unig. Ni fydd yr ystadegau hyn yn cynnwys gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn. Mae gwybodaeth o'r fath yn ddienw a chaiff ei chadw ar sail dros dro. Trwy gyflwyno eich data rydych yn caniatáu i'r wybodaeth honno gael ei defnyddio at y dibenion a nodwyd uchod. Pan gesglir gwybodaeth bersonol drwy ffurflen ar-lein, defnyddir y data at y dibenion y'u hesbonnir yn y ffurflen yn unig.

## 1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYN NI

**DIBEN YR HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn anelu at roi gwybodaeth i chi ynghylch sut mae Cyngor Sir Ynys Môn yn casglu ac yn prosesu eich data personol trwy eich defnydd o'n gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap, gan gynnwys unrhyw ddata efallai y byddwch yn ei roi trwy ein gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap wrth i chi gofrestru i dderbyn gwasanaeth neu gylchlythyr, yn prynu cynnyrch neu wasanaeth.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y Polisi Preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw Hysbysiad Preifatrwydd arall y gallwn ei ddarparu ar achlysuron arbennig pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch chi fel y byddwch yn llwyr ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio eich data.

**RHEOLYDD**
Cyngor Sir Ynys Môn yw'r rheolydd ac yn gyfrifol am eich data personol (cyfeirir ato fel "Cyngor Sir Ynys Môn", "ni" neu "ein" yn y Polisi Preifatrwydd hwn).

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data (*DPO*) sy'n gyfrifol am oruchwylio cwestiynau'n ymwneud â'r Polisi Preifatrwydd hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y Polisi hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau am weithredu eich hawliau cyfreithiol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**MANYLION CYSWLLT**
**Enw llawn yr endid cyfreithiol:** Cyngor Sir Ynys Môn

Gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data
**Cyfeiriad e-bost:** SDD@ynysmon.gov.uk neu DPO@anglesey.gov.uk
**Cyfeiriad post:**
Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
**Rhif ffôn:** (01248) 750057

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (*ICO*), sef awdurdod goruchwylio'r Deyrnas Unedig ar gyfer materion diogelu data (*www.ico.org.uk <http://www.ico.org.uk/>*). Byddem, fodd bynnag, yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymdrin â'ch pryderon cyn i chi fynd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth felly cysylltwch â ni yn y man cychwyn.

**DOLENNI TRYDYDD PARTI**
Gall y wefan hon gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti, ategynnau a gosodiadau. Gall gwasgu ar y dolenni neu alluogi'r cysylltiadau hynny alluogi trydydd parti i gasglu neu rannu data amdanoch chi. Nid oes gennym ni reolaeth dros y gwefannau trydydd parti hyn ac nid ydym yn gyfrifol am eu datganiadau preifatrwydd. Pan fyddwch yn gadael ein gwefan, rydym yn eich annog i ddarllen hysbysiad preifatrwydd pob gwefan rydych yn ymweld â hi.

## 2. Y DATA RYDYM YN EI GASGLU AMDANOCH CHI
Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod yr unigolyn hwnnw ganddi. Nid yw'n cynnwys data lle y mae'r hunaniaeth wedi'i dileu (data dienw).

Rydym yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu data cyfanredol megis data ystadegol neu ddata demograffeg at unrhyw ddiben. Gellid casglu data cyfanredol o'ch data personol ond nid yw'r gyfraith yn ei ystyried yn ddata personol am nad yw'r data hwn yn datgelu eich hunaniaeth yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cyfansymio eich data defnydd i gyfrif canran y defnyddwyr sy'n cael mynediad i nodwedd benodol o'r wefan. Fodd bynnag, os ydym yn cyfuno neu'n cysylltu data cyfanredol gyda'ch data personol fel y gallai eich adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ymdrinnir â'r data cyfunol fel data personol a chaiff ei ddefnyddio yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Gallwn gasglu unrhyw Gategorïau Arbennig o ddata personol amdanoch chi (mae hyn yn cynnwys manylion am eich hil neu'ch ethnigrwydd, eich cred grefyddol neu athronyddol, eich bywyd rhywiol, eich tueddfryd rhywiol, eich barnau gwleidyddol, eich aelodaeth ag undeb llafur, gwybodaeth am eich iechyd a'ch data genetig a biometrig). Nid ydym ychwaith yn casglu unrhyw wybodaeth am euogfarnau na thramgwyddau troseddol.

**OS NA FYDDWCH YN DARPARU GWYBODAETH BERSONOL**

Pan fydd angen i ni gasglu data personol yn ôl y gyfraith, neu o dan delerau contract rhyngom ni a chi ac rydych yn methu â darparu'r data yn ôl y gofyniad, efallai na fydd modd i ni weithredu'r contract sydd gennym neu rydym yn ceisio ei gael gyda chi (er enghraifft, i ddarparu gwasanaethau digonol i chi). Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i ni ganslo gwasanaeth sydd gennych â ni ond byddwn yn eich hysbysu am hynny ar y pryd.

## 3. SUT CAIFF EICH DATA PERSONOL EI GASGLU?

Rydym yn defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data gennych chi ac amdanoch chi drwy:

- **Rhyngweithiadau uniongyrchol.** Gallwch roi eich data Adnabod, eich Data Cyswllt a'ch Data Ariannol i ni trwy gwblhau ffurflenni neu drwy ohebiaeth â ni drwy'r post, dros y ffôn, trwy e-bost, neu ddull arall. Mae hyn yn cynnwys y data personol rydych yn ei roi pan fyddwch yn:
  - Gwneud cais am ein gwasanaethau;
  - Creu cyfrif ar un o'n gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap;
  - Tanysgrifio i'n gwasanaeth neu ein cyhoeddiadau;
  - Gwneud cais i dderbyn deunydd marchnata;
  - Cystadlu mewn cystadleuaeth, hyrwyddiad neu arolwg; neu'n
  - Rhoi adborth i ni.
- **Technolegau neu ryngweithiadau awtomataidd.** Wrth i chi ryngweithio â'n gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap, gallwn gasglu Data Technegol yn awtomatig am eich cyfarpar, eich gweithredoedd pori a'ch patrymau. Rydym yn casglu'r data personol hwn trwy ddefnyddio cwcis, a thechnolegau tebyg eraill.
- **Trydydd parti neu ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus.** Gallwn dderbyn data personol amdanoch chi gan drydydd parti a ffynonellau cyhoeddus amrywiol fel y nodir isod:

**(a)** darparwyr dadansoddeg

- Data Cyswllt, Data Ariannol a Data Trosglwyddiadau gan ddarparwyr gwasanaethau technegol, gwasanaethau taliadau a gwasanaethau cyflenwi.
- Data Adnabod a Data Cyswllt gan ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus [megis Tŷ'r Cwmnïau a'r Gofrestr Etholiadol a leolir y tu mewn i'r Undeb Ewropeaidd.

## 4. SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Ein polisi yw parchu a diogelu preifatrwydd unrhyw un sy'n ymweld â'n gwefan, ein pyrth ar-lein a'n hap. Lle y gofynnwn i chi roi gwybodaeth bersonol trwy ffurflen ar-lein, defnyddir y wybodaeth hon at y dibenion a nodwyd yn unig a chaiff ei chadw mewn ffordd ddiogel. Ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall heb dderbyn eich caniatâd ac ni chaiff ei chadw yn hirach nag y mae ei angen. Os ydych yn gofidio am roi eich

gwybodaeth bersonol ar-lein yna cysylltwch â ni a byddwn yn trefnu ffyrdd amgen i chi roi'r wybodaeth hon.

**AT BA DDIBENION Y BYDDWN YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL**

Rydym wedi nodi isod, ar ffurf tabl, ddisgrifiad o'r holl ffyrdd rydym yn bwriadu defnyddio eich data personol, a'r seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnynt i wneud hynny. Rydym hefyd wedi adnabod ein diddordebau cyfreithlon lle y bo'n briodol.

Sylwer efallai y byddwn yn prosesu eich data personol ar fwy nag un sail gyfreithiol yn dibynnu ar y rheswm penodol drosom yn defnyddio eich data. Dylech gysylltu â ni os bydd angen manylion arnoch am y sail gyfreithiol benodol rydym yn dibynnu arni i brosesu eich data personol mewn achosion lle y nodir mwy nag un sail gyfreithiol yn y tabl isod.

**COFRESTRIAD FY NGHYFRIF**

Rydym yn ymdrechu i roi dewisiadau i chi ynghylch ffordd o ddefnyddio data personol arbennig, yn enwedig o ran marchnata a hysbysebu. Rydym wedi sefydlu Fy Nghyfrif lle y gallwch weld a gwneud penderfyniadau ar y ffordd y caiff eich data personol ei ddefnyddio. Os byddwch yn cofrestru â Fy Nghyfrif fel defnyddiwr trwy'r wefan neu'r ap, gofynnwn i chi am wybodaeth sylfaenol a phersonol arbennig er mwyn creu eich proffil defnyddiwr, er enghraifft eich enw a'ch cyfeiriad e-bost.

Efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu'r data canlynol amdanoch chi:

- Gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi trwy'r dudalen "Cofrestru" wrth gofrestru i ddefnyddio Fy Nghyfrif gan gynnwys eich enw, eich cyfeiriad e-bost, ac unrhyw wybodaeth a ddiweddarwyd y byddwch yn ei rhoi o bryd i'w gilydd i gael mynediad i wasanaethau;
- Gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi trwy'r dudalen "Fy Mhroffil/Manylion Defnyddiwr";
- Gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth ofyn am wasanaeth neu wybodaeth;
- Gwybodaeth ychwanegol efallai y byddwn yn gofyn amdani o bryd i'w gilydd naill ai drwy gysylltu â chi'n uniongyrchol neu drwy Fy Nghyfrif, er na fydd unrhyw rwymedigaeth i chi roi'r wybodaeth ychwanegol hon.
- Manylion am eich ymweliadau â Fy Nghyfrif gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata traffig, data lleoli, ac unrhyw ddata cyfathrebu arall, boed bod angen y wybodaeth hon at ein dibenion ein hunain ai peidio a'r adnoddau rydych yn cael mynediad iddynt.

Byddwn yn eich hysbysu ar y dudalen gofrestru os yw darparu'r wybodaeth arbennig yn ddewisol.

Os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni am unigolyn arall rydych yn cadarnhau ei fod wedi eich penodi i weithredu ar ei ran, rydych yn rhoi caniatâd i'w ddata personol gael ei brosesu gan gynnwys data personol sensitif ac rydych wedi'i hysbysu am ein hunaniaeth ac at ba ddibenion (fel y nodir isod) y caiff ei ddata personol ei brosesu.

Trwy roi eich gwybodaeth bersonol i ni, rydych yn rhoi caniatad i ni brosesu eich data personol am y rhesymau a nodir isod.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi yn y prif ffyrdd canlynol:

- Er mwyn i ni allu gweinyddu a chefnogi ceisiadau am wasanaethau a gwybodaeth;
- I roi mynediad i chi i'r meysydd a'r swyddogaethau perthnasol yn Fy Nghyfrif (gan gynnwys cynnwys arbennig);
- I gysylltu â chi trwy e-bost neu SMS o bryd i'w gilydd;
- I'ch hysbysu o dro i dro am newidiadau neu ddatblygiadau pwysig ar Fy Nghyfrif;
- I Ddefnyddwyr Cofrestredig gael mynediad i geisiadau am wasanaethau ac i dderbyn diweddariadau ar y statws a'r cynnydd;
- I asesu a dadansoddi i'n galluogi i adolygu, datblygu a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig;
- At ddibenion eraill rydych wedi rhoi eich caniatad iddynt

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth a roddir gennych (megis eich sylwadau am Fy Nghyfrif a'n gwefannau, ein pyrth ar-lein a'n hap a gwelliannau y dymunech i ni eu gwneud) neu wybodaeth ystadegol a gasglwyd, er mwyn i ni allu gwella gwybodaeth a gwneud eich ymweliadau â'r wefan a Fy Nghyfrif yn fwy buddiol.

**MARCHNATA TRYDYDD PARTI**

Byddwn yn derbyn eich caniatad pendant i optio i mewn cyn i ni rannu eich data personol gydag unrhyw gwmni y tu allan i Gyngor Sir Ynys Môn at ddibenion marchnata.

**OPTIO ALLAN**

Gallwch ofyn i ni neu i drydydd parti beidio ag anfon negeseuon marchnata atoch ar unrhyw adeg drwy fewngofnodi i borth ar-lein Fy Nghyfrif a rhoi tic wrth ymyl neu dad-dicio blychau perthnasol i addasu eich dewisiadau marchnata neu drwy gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

Pan fyddwch yn optio allan o dderbyn y negeseuon marchnata hyn, ni fydd hyn yn cynnwys data personol a roddwyd i ni o ganlyniad i brynu cynnyrch/gwasanaeth, cofrestru am warantî, profiad o gynnyrch/gwasanaeth neu weithrediadau eraill.

**DEFNYDDIO CWCIS**

Mae cwci yn neges fer a roddir i'ch porwr gwe gan y gwefannau rydych yn ymweld â nhw. Mae'r porwr yn storio'r neges mewn ffeil testun, a chaiff y neges ei dychwelyd i'r gweinydd bob tro y bydd y porwr yn gofyn am dudalen gan y gweinydd. Cânt eu defnyddio'n helaeth i wneud i wefannau weithio, neu i weithio'n fwy effeithlon, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i berchnogion y safle.

Gallwch osod eich porwr i wrthod pob neu rywfaint o gwcis porwr, neu i'ch rhybuddio pan fydd gwefannau'n gosod neu'n cael mynediad i gwcis. Os byddwch yn analluogi cwcis neu'n eu gwrthod, sylwer efallai na fydd modd i chi gael mynediad i rai rhannau o'r wefan hon neu efallai na fydd yn gweithio'n iawn.

Mae'r cwcis rydym yn eu defnyddio yn rhoi gwybodaeth i ni ynghylch ymddygiad defnyddwyr ar ein safle - pa feysydd sydd o ddiddordeb iddynt a pha wasanaethau ydynt yn eu defnyddio'n aml ayyb. Ni chaiff unrhyw wybodaeth sensitif megis rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost eu storio yn y cwcis hyn.

Rydym hefyd yn defnyddio cwcis dros dro neu gwcis 'sesiynol' i gofio pa iaith i'w harddangos.

Nid yw'r cwcis sesiynol a ddefnyddir gan y safle hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi a chânt eu dileu oddi ar eich cyfrifiadur pan fyddwch yn cau'r porwr gwe. Dylech hefyd sicrhau bod cwcis sesiynol wedi'u galluogi ar gyfer y safle hwn, er mwyn i'ch dewis iaith ymddangos yn iawn.

Mae'r mwyafrif o borwyr gwe wedi'u rhagosod i dderbyn cwcis. Fodd bynnag, os yw cwcis yn eich gwneud yn anghyffyrddus, efallai y gallwch osod eich porwr gwe i wrthod pob cwci neu iddo roi gwybod i chi pan gaiff cwci ei anfon i'ch cyfrifiadur - yna gallwch ddewis a ydych yn dymuno derbyn y cwci ai peidio.

Argymhellwn eich bod, fel isafswm, yn sicrhau bod cwcis sesiynol wedi'u galluogi ar gyfer y safle hwn, er mwyn i'r swyddogaethau sylfaenol, megis dewis iaith weithio'n gywir.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn defnyddio cwcis ar ein tudalen Cwcis.

**NEWID DIBEN**

Byddwn yn defnyddio eich data personol at y dibenion y cafodd ei gasglu gennym yn unig, oni bai bod gennym ystyriaeth resymol dros ei ddefnyddio at ddiben arall a bod y rheswm hwnnw yn gyson â'r diben gwreiddiol. Os dymunech dderbyn esboniad o ran sut mae'r prosesu at ddiben newydd yn gyson â'r diben gwreiddiol, yna cysylltwch â ni.

**Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol at ddiben digyswllt, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n caniatau i ni wneud hynny.**

Sylwer efallai y byddwn yn prosesu eich data personol heb wybod i chi a heb dderbyn eich caniatad, yn unol â'r rheolau uchod, lle y gofynnir am hyn neu y caniateir hyn yn ôl y gyfraith.

## 5. DATGELU EICH DATA PERSONOL

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, nid ydym yn datgelu unrhyw ran o'ch gwybodaeth i bartïon eraill, ac eithrio lle y rhoddwyd eich caniatad yn yr adran "Fy Nghyfrif". Yn hyn o beth efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth gyda'n darparwyr gwasanaeth a'n hasiantwyr at y dibenion uchod. Efallai y bydd hefyd angen i ni rannu eich gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill Cyngor Sir Ynys Môn ac unrhyw gorff olynol i ni.

Fel arall, cedwir yr hawl i roi eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti heb dderbyn eich caniatad lle y credwn fod angen datgeliad o'r fath (i) yn ôl y gyfraith (ii) i gynorthwyo ag atal neu ddarganfod unrhyw weithgarwch (gan gynnwys twyll) neu (iii) yn niddordeb y cyhoedd ac fe'i caniateir yn ôl y gyfraith.

## 6. TROSGLWYDDIADAU RHYNGWLADOL

Nid ydym yn trosglwyddo eich data personol i'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (*EEA*).

## 7. DIOGELU DATA

Rydym wedi gosod mewn lle mesurau diogelwch perthnasol i atal eich data personol rhag cael ei golli ar ddamwain, cael ei ddefnyddio neu gael mynediad ato mewn ffordd anawdurdodedig, ei addasu neu ei ddatgelu. Yn ogystal caiff mynediad i'ch data personol ei gyfyngu i'r cyflogeion, yr asiantwyr, y contractwyr a'r trydydd partïon eraill y mae angen iddynt wybod amdano am resymau busnes. Byddant yn prosesu eich data personol yn dilyn ein cyfarwyddiadau yn unig ac maent yn destun dyletswydd gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod mewn lle gweithdrefnau i fynd i'r afael ag unrhyw dor data personol amheus a byddwn yn eich hysbysu ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am unrhyw dor lle y mae gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

## 8. CADW DATA

**AM BA MOR HIR FYDDECH YN DEFNYDDIO FY NATA PERSONOL?**

Byddwn yn cadw eich data personol am gyhyd â bod ei angen arnom i ddiwallu'r pwrpas y cafodd ei gasglu amdano, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu, neu adrodd.

I benderfynu'r hyd perthnasol ar gyfer cadw'r data, rydym yn ystyried swm y data personol, ei natur a'i sensitifrwydd, y risg o niwed posib o ganlyniad i ddefnydd anawdurdodedig neu ddatgelu eich data personol, y rhesymau dros brosesu eich data personol ac a oes modd i ni gyflawni'r rhesymau hynny trwy ffyrdd eraill, a'r gofynion cyfreithiol.

## 9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan amgylchiadau arbennig, mae gennych hawl o dan gyfreithiau diogelu data parthed eich data personol:

Os dymunech weithredu unrhyw un o'r hawliau a nodwyd uchod, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data yr Awdurdod drwy anfon neges e-bost i: SDD@ynysmon.gov.uk neu drwy ysgrifennu at: Swyddog Diogelu Data, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW

### NI CHODIR FFI FEL ARFER

Ni fydd angen i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch data personol (neu i weithredu unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y codir ffi resymol os yw'n amlwg bod eich cais yn ddi-sail, yn ailadroddus neu'n ormodol. Neu, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'ch cais o dan yr amgylchiadau hyn.

### YR HYN EFALLAI Y BYDD EI ANGEN ARNOM GENNYCH CHI

Efallai y bydd angen i ni wneud cais am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad i'ch data personol (neu i weithredu unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch i sicrhau na chaiff data personol ei ddatgelu i unrhyw un nad oes ganddo hawl ei dderbyn. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi i ofyn am wybodaeth bellach ynghylch eich cais i gyflymu'r amser cyn i ni ymateb.

### CYFYNGIAD AMSER I YMATEB

Rydym yn ceisio ymateb i bob cais cyfreithlon ymhen un mis. O dro i dro efallai y bydd yn cymryd yn hirach nac un mis os yw'ch cais yn un arbennig o gymhleth neu os ydych wedi gwneud nifer o geisiadau. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn eich hysbysu ac yn rhoi diweddariadau i chi.

### EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mae gennych hawl i:

**Cais i gael mynediad** i'ch data personol (a elwir yn gyffredin fel "cais am fynediad gan wrthrych y data"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi ac i wirio ein bod yn ei brosesu mewn modd cyfreithlon.

**Cais i gywiro'r** data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir rydym yn ei gadw amdanoch chi, er efallai y bydd angen i ni ddilysu cywirdeb y data

newydd rydych yn ei roi i ni.

**Cais i ddileu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu yn ôl data personol pan nad oes rheswm da drostom yn parhau i'w brosesu. Mae hefyd gennych hawl i ofyn i ni ddileu neu dynnu yn ôl data personol mewn achosion lle y llwyddoch i weithredu eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod), lle efallai rydym wedi prosesu eich gwybodaeth mewn modd anghyfreithlon neu mewn achosion lle roedd gofyniad arnom i ddileu eich data personol i gydymffurfio â chyfraith leol. Sylwer, fodd bynnag, efallai na fydd modd i ni bob amser gydymffurfio â'ch cais i ddileu am resymau cyfreithiol penodol y cewch eich hysbysu amdanynt, os yn berthnasol, adeg y cyflwynir eich cais.

**Gwrthwynebu prosesu** eich data personol mewn achosion lle rydym yn dibynnu ar ddiddordeb cyfreithlon (neu rai trydydd parti) a bod rhywbeth yn ymwneud â'ch sefyllfa benodol sy'n achosi i chi wrthwynebu prosesu ar y sail honno oherwydd teimlwch ei fod yn effeithio ar eich hawliau a'ch rhyddid sylfaenol. Mae hefyd gennych hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn dangos bod gennym sail gyfreithlon gymhellol dros brosesu eich gwybodaeth sy'n sarnu eich hawliau a'ch rhyddid.

**Cais i gyfyngu prosesu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ohirio prosesu eich data personol yn y sefyllfaoedd canlynol: (a) os ydych yn dymuno i ni gadarnhau cywirdeb y data; (b) lle y mae'r modd y defnyddir y data gennym yn anghyfreithlon ond nid ydych yn dymuno i ni ei ddileu; (c) lle mae angen i ni gadw'r data ar eich rhan hyd yn oed os nad ydym yn ei ddefnyddio bellach am fod angen i chi sefydlu, gweithredu neu amddiffyn honiadau cyfreithiol; neu (ch) os ydych wedi gwrthwynebu ein defnydd o'ch data ond mae angen i ni ddilysu a oes gennym sail gyfreithlon bennaf dros ei ddefnyddio.

**Cais i drosglwyddo** eich data personol i chi neu i drydydd parti. Byddwn yn darparu eich data personol i chi, neu i drydydd parti o'ch dewis, mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin, y mae modd ei ddarllen ar beiriant. Sylwer y cedwir yr hawl hon ar gyfer gwybodaeth awtomataidd yn unig sef gwybodaeth y rhoddwyd caniatad yn y man cychwyn i ni ei defnyddio neu le y defnyddiwyd y wybodaeth i weithredu contract gyda chi.

**Tynnu caniatad yn ôl ar unrhyw adeg** lle rydym yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a gynhaliwyd cyn i chi dynnu eich caniatad yn ôl. Os byddwch yn tynnu eich caniatad yn ôl, efallai na fydd modd i ni ddarparu cynyrchiadau neu wasanaethau penodol i chi. Os felly, byddwn yn eich hysbysu am hyn ar yr adeg rydych yn tynnu eich caniatad yn ôl.

## 10. ADOLYGU'R POLISI PREIFATRWYDD

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn adolygu ac yn diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn barhaus i adlewyrchu'r newidiadau i'n gwasanaethau a'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â chydymffurfio â newidiadau i'r gyfraith. Os bydd newidiadau sylweddol i'r datganiad hwn neu i sut bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn hysbysebu'r hysbysiad a ddiweddarwyd ar dudalen flaen gwefan Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn eich annog i ymweld â gwefan y cyngor o bryd i'w gilydd i adolygu'r hysbysiad hwn ac i dderbyn gwybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Sir Ynys Môn yn diogelu eich gwybodaeth.